# NODIADAU ARWEINIAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

**NODIADAU I GEISWYR**

***Bwriedir y nodiadau hyn eich helpu chi gyda'ch cais cynllunio. Hwyrach y byddwch eisiau cysylltu â ni i drafod eich cynigion cyn i chi gyflwyno'ch cais.***

Ffôn. (029) 2233 0800
www.cardiff.gov.uk

**NI** ddylid defnyddio'r ffurflen Gais Cynllunio ar gyfer y canlynol:

- Cais Hysbysebu
- Caniatâd Ardal Rhestredig
- Caniatâd Adeilad Rhestredig
- Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol neu Ddatblygu
- Cais Rheoliadau Adeiladu

Gellir cael ffurflenni ar gyfer yr uchod oddi wrth
**Rheoli Datblygu**
**Neuadd y Sir**
**Caerdydd**
**CF10 4UW**
**Ffôn: (029) 2233 0800**

---

**1. DISGRIFIAD CRYNO O'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG** (Cwestiwn 2b)

Dylai hyn nodi'n glir y defnydd(iau) arfaethedig, nifer y lloriau os cynigir adeiladau newydd, a nifer yr anheddau os cynigir datblygiad preswyl. Nodwch a yw'r cais yn gofyn am ganiatâd i gadw adeiladau neu waith a adeiladwyd eisioes neu a sefydlwyd eisoes yn ateb i gwestiwn 3 a 2a.

**Enghreifftiau**
- Estyniad dau lawr ar yr ochr sy'n cynnwys cegin ac ystafell wely drosti
- Codi 6 tŷ dau lawr
- Newid defnydd i gaffi (9yb hyd 6yh) ac estyniad un llawr ar y cefn
- Cadw garej un llawr yn yr ardd gefn

Os hoffech chi gynnig gwybodaeth ychwanegol am y defnydd arfaethedig neu weithrediad y safle, croeso i chi wneud hynny mewn llythyr.

---

**2. Y MATH O GAIS** (Cwestiwn 3)

**a. CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLOL**:

Hwyrach eich bod am gael caniatâd o ran egwyddor i godi adeiladau newydd cyn i chi baratoi darluniau manwl, cewch wneud cais am Ganiatâd Cynllunio Amlinellol.

Dylech geisio cynnig gymaint o wybodaeth â phosibl.

Mewn ymateb i Gwestiwn 3a ar y ffurflen gais, cewch gadw rhai materion ar gyfer caniatâd dilynol, megis: **safle** (lleoliad yr adeiladau), **Dyluniad** (uchder/ siâp yr adeiladau), Ymddangosiad **Allanol**, **Dull Mynediad** a **thirlunio**. Os na chedwir unrhyw faterion am gymeradwyaeth ddilynol, bydd angen darluniau manwl ar gyfer y rhain ar yr adeg hwn.

- Mae Caniatâd Cynllunio Amlinellol fel arfer yn ddilys am 3 blynedd o ddyddiad y caniatâd.
- Ni ellir gofyn am Ganiatâd Cynllunio Amlinellol sy'n cynnwys newid defnydd yn unig.
- Hwyrach y bydd angen manylion pellach am ddyluniad a threfn mewn rhai achosion.

**b. CYMERADWYO MATERION WRTH GEFN:**

Os rhoddwyd Caniatâd Amlinellol eisoes cewch gyflwyno cais i gymeradwyo materion wrth gefn.

Ni ddylid gwneud cais am faterion wrth gefn os nad yw'r cynigion cyfredol o fewn telerau'r caniatâd amlinellol. Mewn achos o'r fath, dylech wneud cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.

**c. CANIATÂD CYNLLUNIO CYFLAWN:**

Os hoffech chi newid defnydd y tir neu'r adeiladau, neu wneud gwaith lle nad ydych am wneud cais am Ganiatâd Cynllunio Amlinellol, dylech wneud cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.

---

**d. PARHAD CANIATÂD DROS DRO:**

Gellir gwneud cais am hyn cyn i'r caniatâd blaenorol dod i ben yn unig a gellir gwneud hyn trwy ddanfon llythyr gyda'r tystysgrif perchnogaeth priodol wedi'i amgàu.

**e. ADDASU NEU DDIRYMU AMOD:**

Os hoffech chi wneud cais i addasu neu ddirymu amod sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio blaenorol, dylech dicio blwch 3(e), gan nodi dyddiad y caniatâd gwreiddiol a'r amod(au) o dan sylw. Nodwch yn 2(b) sut yr hoffech chi addasu'r amod.

---

**3. PLANIAU O'R SAFLE –** Dylid ategu unrhyw geisiadau cynllunio â:

- Plan neu ddarlun ar raddfa 1:1250 sy'n dangos y safle sydd o dan sylw, ei ffin a'r hyn sydd o amgylch iddo.
- Rhaid amlinellu safle'r cais mewn inc coch ac unrhyw dir arall sy'n eiddo i'r ceisydd, neu sydd yn ei rheolaeth, mewn inc glas.

Gellir prynu copïau o ddarnau o fap yr Arolwg Ordnans (Graddfa 1:1250) i'w defnyddio wrth wneud cais o Rheoli Datblygu (029 2087 1135).

**DARLUNIAU ERAILL**

Heblaw yn achos ceisiadau amlinellol, lle nid oes angen darluniau ychwanegol fel arfer, dylai'r planiau sy'n ategu cais:-

- Fod ar raddfa o leiaf 1:100 (Mae angen planiau ar raddfa fetrig neu â dimensiwn llawn).
- Dangos nodweddion cyfredol y safle gan gynnwys unrhyw goed. Rhaid iddynt fod yn ddigon manwl i roi darlun clir o'r holl adeiladau newydd.
- Nodi'n glir lleoliad y datblygiad newydd ar y safle, yr arwynebedd llawr a gaiff ei ddefnyddio at wahanol ddibenion ac unrhyw newidiadau arfaethedig i lefel y ddaear. Dylai'r rhain wahaniaethu rhwng yr hen adeiladau/strwythurau a'r rhai newydd.
- Nodi math a lliw y deunyddiau a gaiff eu defnyddio ar y muriau allanol a'r to.
- Dylid ategu ceisiadau newid defnydd â phlaniau mewnol sy'n dangos y defnydd(iau) arfaethedig.

Caiff y cyhoedd archwilio planiau a darluniau. Er hynny, nid oes angen i'r ymgeiswyr ddatgelu unrhyw drefniadau diogelwch mewnol arfaethedig. Fel arfer, ymgynghorir â'r cymdogion uniongyrchol drwy lythyr. Felly hwyrach y bydd yn ddefnyddiol i chi drafod eich cais gyda'ch cymdogion cyn i chi ei gyflwyno i Rheoli Datblygu.

---

**4. TYSTYSGRIFAU** (Cwestiwn 14) – O dan adran 66 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, rhaid ategu cais cynllunio gyda'r dystysgrif perchnogaeth briodol.

**TYSTYSGRIF A** os chi yw unig berchennog y tir ac nad oes dim yn llechfeddiannu ar neu dros dir yn eu perchnogaeth (e.e. gwteri, sylfeini)

*NEU*

**TYSTYSGRIF B** os nad chi yw perchennog yr holl dir y mae'r datblygiad yn effeithio arno a bod angen felly i chi hysbysu perchennog/perchnogion eraill eich bod yn gwneud cais cynllunio.

(Perchennog yw perchennog rhydd-ddeiliad neu berson â buddiant prydles â dros 7 mlynedd i redeg)

Os caiff unrhyw rhan o safle'r cais ei ddefnyddio fel daliad amaethyddol, peidiwch â llenwi C15. dylech gael tystysgrif ar wahân oddi wrth Rheoli Datblygiad.

---

**RHESTR GYFEIRIO**

*Cyn dychwelyd y ffurflenni, sicrhewch eich bod wedi amgâu'r canlynol:*

- 1 gopi o'r ffurflen gais a 2 lofnod a dyddiad
- 1 gopi o'r planiau angenrheidiol gan gynnwys plan o leoliad y safle (1:1250)
- Y ffi briodol – gweler y daflen amgaeëdig